| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol |
| **Dyddiad yr adroddiad** | 11 Mawrth 2021 |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Teitl** | Addewid Dim Hiliaeth Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i'r Cyngor addo ei gefnogaeth i'r fenter Dim Hiliaeth Cymru

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae gan Sir Ddinbych y cyfle i gytuno i addewid Dim Hiliaeth Cymru ynghyd â Chynghorau eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cytundeb gan Aelodau y dylai CSDd gefnogi'r fenter bwysig hon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn addo ei gefnogaeth i fenter Dim Hiliaeth Cymru trwy benderfyniad dirprwyedig a wnaed gan yr Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol.

3.2. Bod y penderfyniad dirprwyedig yn cael ei weithredu'n syth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae disgrifiad o'r fenter Dim Hiliaeth Cymru ar gael yma https://zeroracismwales.co.uk/?lang=cy Mae'n ddatganiad pwysig o egwyddor i sefydliadau yng Nghymru ac yn dangos nad yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn arbennig yn fodlon goddef hiliaeth mewn unrhyw ffurf.

4.2. Trwy addo ein cefnogaeth i'r fenter hon, bydd y Cyngor yn cyhoeddi eu safle mewn ffordd gadarnhaol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydlynu'r gwaith i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gytuno i'r addewid ac er mwyn cynyddu effaith hyn, gofynnwyd i bob addewid gael ei wneud erbyn 20 Mawrth.

4.3. Mae o leiaf 10 Cyngor ledled Cymru wedi cytuno i'r addewid hwn eisoes, mae eraill wrthi'n gwneud hynny.

4.4. O ystyried y cyfyngiadau amser, cynigir bod y penderfyniad yn cael ei wneud trwy'r broses Penderfyniad Dirprwyedig yr Aelod Arweiniol a bod y penderfyniad yn cael ei weithredu'n syth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r penderfyniad yn cefnogi gwaith y Cyngor ym maes Cydraddoldeb ac yn cefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol yn uniongyrchol.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Does dim costau nac effaith amlwg ar wasanaethau eraill yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid yw'r penodiad hwn yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelod Arweiniol ar gynnwys yr adroddiad hwn.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn codi o'r adroddiad.

## 10Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni chanfuwyd unrhyw risgiau penodol o'r broses benodi hon.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Yn unol â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Aelod Arweiniol yn Atodiad 2(b) yn Adran 13 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.